Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
—
National Assembly for Wales
**Public Accounts Committee**

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru

17 Ebrill 2020

Annwyl Ysgrifennydd Parhaol

**Dull Llywodraeth Cymru o ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth, sydd wedi'i anfon at Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Roedd yn anffodus na fu modd inni drafod hyn â chi yn y Pwyllgor, ond yn gwbl ddealladwy o dan yr amgylchiadau. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y wybodaeth ysgrifenedig a gawsom gennych a hoffwm ddiolch i chi a'ch swyddogion am yr holl waith a wnaed, ac sy'n parhau, i ymdrin â goblygiadau'r argyfwng iechyd cyhoeddus hwn.

Nid wyf am eich llethu â cheisiadau am ragor o wybodaeth ar hyn o bryd ond, o ran y penderfyniad i atal y cylch o bwyllgorau archwilio a risg y gwanwyn hwn, rwy'n gobeithio bod aelodau'r pwyllgorau hynny'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau. Byddem hefyd, maes o law, yn hoffi gwybod rhagor am rôl bwrdd/aelodau anweithredol o Lywodraeth Cymru yn yr ymateb i'r argyfwng hwn.

Rydym yn croesawu ymateb hyblyg a chyflym Llywodraeth Cymru wrth iddi fynd i'r afael â heriau'r sefyllfa hon, na welwyd ei thebyg o'r blaen, yn enwedig y cymorth a gynigiwyd i fusnesau a'r newidiadau yn y prosesau caffael a'r cyllid i'r trydydd sector. Fodd bynnag, hoffwn gymell gofal, a gofyn ichi sicrhau bod angen cofnodi dadansoddiad ysgrifenedig llawn o benderfyniadau. Os nad yw'n bosibl eu cofnodi wrth eu gwneud, yna dylid gwneud hynny cyn gynted â phosibl wedyn. Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder yn y gorffennol am drefniadau cofnodi penderfyniadau.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud wrthych fod y Pwyllgor wedi cynnal trafodaethau manwl ar ein hadroddiad drafft yn dilyn y broses o graffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2018-19. Rwy'n gobeithio y byddwn yn cytuno ar fersiwn derfynol cyn bo hir. Nid wyf yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad na'i osod yn ffurfiol ar hyn o bryd,

ond byddaf, yn hytrach, yn ei rannu'n *gyfrinachol* â swyddogion Llywodraeth Cymru, a hynny oherwydd sensitifrwydd yr amgylchiadau presennol a rhag tynnu sylw oddi ar waith y Llywodraeth yn ystod yr argyfwng presennol. Byddwn yn gosod yr adroddiad yn ffurfiol cyn gynted ag y bydd busnes arferol yn ailddechrau.

Drwy rannu'n adroddiad fel hyn, rwy'n gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i'r swyddogion perthnasol ac y bydd modd ystyried ei gasgliadau wrth baratoi Cyfrifon Cyfunol 2019-20. Rwyf, fodd bynnag, yn cydnabod y bydd cyfyngiadau ar allu Llywodraeth Cymru i ymateb i holl argymhellion y Pwyllgor yng nghylch cyfrifyddu 2019-20.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English